NHS WALES GIG CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Penodi Aelod Annibynnol (3 rôl: Cyllid/Masnachol, Cyfreithiol, a'r Trydydd Sector)

Dyddiad cau: 31 Mai 2017

Regulated by
The Commissioner for
Public Appointments

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cynnwys **Tudalen**

Gwneud Cais **3**

Atodiad A : Rôl yr Aelod Annibynnol **6**

Atodiad B : Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro **10**

Atodiad C : Y broses ddethol **13**

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Aelod Annibynnol Cyllid/Masnachol, Cyfreithiol, neu aelod Trydydd Sector o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd gofyn i'r Aelod Annibynnol newydd chwarae rhan lawn yng ngwaith llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr Aelod Annibynnol, manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-fc5cbffc58a1/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu gwneud, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi gyflwyno ffurflen gais a **dwy** ddogfen atodol. Y cyntaf o'r rhain yw **datganiad personol** sy'n ateb y cwestiynau isod drwy roi tystiolaeth o'r cymwyseddau. Ni ddylai'r ddogfen hon fod yn fwy na dwy dudalen A4. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn. **CV** llawn, cyfredol yw'r ail ddogfen y bydd rhaid ichi ei chyflwyno. Dylech lanlwytho'r ddwy ddogfen i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir yn y cwestiynau isod. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Cwestiynau i'w hateb yn eich datganiad personol fel rhan o'ch cais . Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen A4.

Rhowch ddisgrifiad bras o sut rydych yn bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer y rôl Cyllid/Masnachol neu Gyfreithiol neu Drydydd Sector, sydd i'w gweld ar dudalen 7.

Disgrifiwch eich dealltwriaeth o faterion a blaenoriaethau iechyd yng Nghymru a sut y byddai'r rhain yn gymwys ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Rhowch enghraifft neu enghreifftiau pan fu'n rhaid ichi ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau cadarn.

Sut fedrwch chi ddangos eich bod wedi arddel ein gwerthoedd, sydd i'w gweld ar dudalen 11.

Disgrifiwch adeg pan wnaethoch ddwyn person ar lefel uwch i gyfrif gan barhau i gynnal perthynas adeiladol ag ef/hi.

Rhowch enghraifft o'ch sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Rhowch enghraifft benodol yn amlinellu eich dull o gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ar bob lefel, y sgiliau a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennych a'r canlyniad.

Disgrifiwch enghraifft neu enghreifftiau lle rydych wedi cynnwys amrywiol dimau, partneriaid neu randdeiliaid i wella gwasanaeth neu broses. Amlinellwch eich cyfraniad personol a'r canlyniad.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	31 Mai 2017
Llunio rhestr fer:	Diwedd Mehefin 2017
Cyfweliadau:	10 Gorffennaf 2017
Dyddiad dechrau:	1 Hydref 2017. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y bwrdd iechyd yn gofyn am gyfnod trosglwyddo / cysgodi. Felly efallai y bydd gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau **cyn** mis Hydref 2017. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cadarnhad ynghylch hyn ar ôl cadarnhau'r penodiad.

Prif fanylion y swydd

Lleoliad:	Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd pob deufis mewn lleoliadau gwahanol yn ardal y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd sawl pwyllgor ac fe gynhelir y cyfarfodydd hynny naill ai pob deufis neu yn chwarterol.
Cydnabyddiaeth ariannol:	£15,936 y flwyddyn
Ymrwymiad Amser:	Mae swydd Aelod Annibynnol yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad, ac mae hynny'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad
Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer pobl anabl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel person sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. O dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, bydd ymgeisydd anabl yn cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad os yw'n bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd.

Manylion Cyswllt:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol
Ffôn: 029 2082 5454
E-bost: DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Aelod Annibynnol, cysylltwch â Maria Battle, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ffôn 02920745684, E-bost Maria.Battle@wales.nhs.uk

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ewch i'w gwefan: http://www.billcaerdyddarfro.cymru.nhs.uk/

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Rôl yr Aelod Annibynnol

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person
Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Rôl a chyfrifoldebau
Bydd Aelodau Annibynnol, ymysg pethau eraill, yn:-

- Chwarae rhan lawn yn y ffordd y caiff y Bwrdd Iechyd ei reoli, mewn modd clinigol a chorfforaethol. Byddwch yn cymryd rhan weithgar mewn trafodaethau, gan gynnig eich barn a herio a chefnogi'r Bwrdd o ran materion allweddol.
- Cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad yn y gorffennol a'ch gwybodaeth, a'ch gallu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli beunyddiol;
- Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw;
- Bydd disgwyl i chi, ymhen amser, ddeall y busnes yn llawn drwy gymryd rhan weithgar, er mwyn galluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithiol;
- Gweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eraill a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau;
- Dadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol a chyfrannu at benderfyniadau cadarn.
- Gallu cyfrannu at brosesau 'llywodraethu ac ariannu' y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei fod yn agored ac yn onest yn ei waith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau.

Manyleb y Person
Bydd pob Aelod Annibynnol yn arddangos y rhinweddau canlynol:-

Gwybodaeth a Phrofiad

- Deall problemau a blaenoriaethau iechyd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r gallu i ddeall ei rôl a'i waith;
- Y gallu i ddwyn yr aelodau gweithredol i gyfrif am berfformiad, gan gynnal perthynas adeiladol ar yr un pryd;
- Y gallu i ddarparu safbwynt gwybodus, diduedd a chytbwys ar amrywiaeth o faterion sensitif a chymhleth;
- Dealltwriaeth eang o'r gofynion o ran llywodraethu gwybodaeth sydd eu hangen i gydymffurfio â deddfwriaeth ee y Ddeddf Diogelu Data.

Priodoleddau Personol a Sgiliau
Mae gan y Bwrdd Iechyd set o werthoedd ac ymddygiadau craidd – sef yr hyn y mae'r sefydliad yn ei gynrychioli. Bydd angen ichi allu dangos y canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i ymgysylltu â chyflogeion a chynrychiolwyr cyflogeion ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd;
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill;

- Y gallu i gynnwys rhanddeiliaid a gweithio gyda nhw i helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau; ac
- Y gallu i ddadansoddi ac adolygu'n feirniadol gwybodaeth gymhleth.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Meini Prawf Penodol i'r Rôl

Aelod Annibynnol – Cyllid/Masnachol

Bydd angen i chi ddangos:

- Sgiliau a gwybodaeth am systemau ariannol a rheolaeth ariannol mewn sefydliadau mawr.
- Dealltwriaeth gadarn o'r rôl Archwilio a Llywodraethu.
- Y gallu i ddadansoddi ac adolygu Achosion Busnes yn feirniadol.
- Profiad o wella perfformiad i sicrhau gwerth am arian.
- Y gallu i gymhwyso eich gwybodaeth arbenigol a'ch sgiliau cyllid ar lefel bwrdd strategol.
- Profiad o waith Cyllid/Masnachol yn y sector preifat a/neu cyhoeddus.

Aelod Annibynnol – Cyfraith

Bydd angen i chi ddangos:

- Y gallu i gymhwyso eich gwybodaeth a'ch sgiliau cyfreithiol ar lefel bwrdd strategol.
- Y gallu i gynnig cyngor i'r Bwrdd ar ystod o faterion, a allai gynnwys cyfraith gorfforaethol, cyfraith gyflogaeth a chyfraith contractau.
- Y gallu i gynghori'r Bwrdd ar brosesau llywodraethu corfforaethol gan gynnwys rheoleiddio proffesiynol.
- Y gallu i gymhwyso arbenigedd gyfreithiol i gasglu a dehongli gwybodaeth gymhleth ac anghyfarwydd.

Aelod Annibynnol – y Trydydd Sector

Bydd angen i chi ddangos:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r trydydd sector yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Eich bod yn gallu cymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o faterion trydydd sector ar lefel bwrdd strategol.

Y Gymraeg

Nid oes angen sgiliau ar y rolau.

Ymrwymiad Amser
Mae swydd Aelod Annibynnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad, ac mae hynny'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Cydnabyddiaeth ariannol
Bydd yr Aelod Annibynnol yn cael tâl o £15,936 y flwyddyn, sy'n cael ei dalu fel ôl-daliad misol neu chwarterol, fel y cytunwyd gyda'r Bwrdd Iechyd.

Ni fydd Aelod Annibynnol sy'n cael amser i ffwrdd o'i swydd bresennol gyda thâl i ddod i gyfarfodydd y Bwrdd Iechyd yn cael unrhyw dâl ychwanegol am ymgymryd â rôl yr Aelod Annibynnol. Byddant yn cael eu trin yr un ffordd â chyflogeion eraill sy'n cael amser i ffwrdd gyda thâl i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

Treuliau
Bydd hawl gennych gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellid talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill, os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.

Hyd y penodiad
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon sy'n pennu hyd y penodiad a bydd am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd i ddechrau. Fodd bynnag, mae hyn ar yr amod bod yr Aelod Annibynnol yn parhau'n gymwys gydol y cyfnod hwn. Gall unigolyn fod yn aelod o'r Bwrdd am uchafswm o wyth (8) mlynedd.

Atebolrwydd
Penodir aelodau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a byddant yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet drwy'r Cadeirydd am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Cymorth ar gyfer Aelodau Anabl
Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud er mwyn i'r aelodau fedru cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Pwy sy'n cael gwneud cais
Caiff unigolyn ei ddiarddel o'r penodiad os bydd:

a. wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd flaenorol yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;
b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwyr;
c. wedi cael ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd;
d. yn berson y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth

iechyd, am iddo beidio â mynychu cyfarfodydd neu am iddo beidio â datgelu buddiant ariannol;

e. yn cael ei gyflogi gan y gwasanaeth iechyd.

Yn amodol ar yr eithriad a nodir yn (e), mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru bod pob un sydd wedi'i gyflogi yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG yn cael seibiant heb ymwneud â'r GIG cyn cael ei ystyried ar gyfer Penodiad Cyhoeddus y GIG.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran dan Gwrthdaro Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Yn benodol, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod i'r amlwg ar ôl eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau Byrddau Iechyd Lleol wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

Gwrthdaro Buddiannau

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn y Bwrdd.

Ar ôl penodi, bydd angen i Aelodau Annibynnol ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nad oes unrhyw wrthdaro'n codi a'i bod yn briodol iddynt barhau'n aelod o'r bwrdd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i Aelodau Annibynnol gadw at safonau llywodraethu da ar gyfer y GIG yng Nghymru. Maent yn seiliedig ar Egwyddorion Llywodraeth Cymru o Lywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ynghyd â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan.

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cefndir

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ym mis Hydref 2009 ac mae'n un o sefydliadau mwyaf y GIG yn y DU. Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gyfrifol am tua 475,000 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Ynghyd â hyrwyddo iechyd a swyddogaethau iechyd y cyhoedd, mae hefyd yn cynnwys darparu gwasanaethau gofal sylfaenol lleol (meddygfeydd teulu, deintyddion, optometryddion a fferyllwyr cymunedol) a rhedeg ysbytai, canolfannau iechyd, timau iechyd cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl. Ar y cyd â rhai gwasanaethau gan fyrddau iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae'r rhain yn darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd i'r bobl sy'n byw'n lleol ac i bobl eraill Cymru a Lloegr sy'n defnyddio ein gwasanaethau arbenigol. Mae Ysbyty Plant Cymru Arch Noa wedi'i leoli ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd. Mae'n darparu gofal iechyd i blant Caerdydd ond hefyd yn darparu gwasanaethau trydyddol i blant o bob cwr i Gymru. Yn Ysbyty Athrofaol Llandochau mae Hafan y Coed, sef uned iechyd meddwl newydd i oedolion a agorwyd ym mis Ebrill 2016. Mae'r uned yn cynnig awyrgylch fodern, therapiwtig sy'n canolbwyntio ar wella i oedolion sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. Mae'r uned newydd o'r radd flaenaf a bydd yn helpu defnyddwyr y gwasanaeth i wella ac i adsefydlu.

Shaping our Future Wellbeing yw ein Strategaeth 10 mlynedd (2015-2025) www.bit.ly/SOFWHome. *Gofalu am bobl a chadw pobl yn iach* yw'r rheswm dros ein bodolaeth fel Bwrdd Iechyd. Rydym yn credu y dylai *pawb gael yr un cyfle i gael byw bywyd iach, pwy bynnag ydyn nhw a lle bynnag maen nhw'n byw.* Rhan annatod o'n strategaeth yw'r dyhead i sicrhau gofal cyson sy'n canolbwyntio ar ofal yn y cartref yn gyntaf, osgoi niwed, gwastraff ac amrywiadau yn y gofal, grymuso unigolion a chyflawni canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw.

Er mwyn cyflenwi'r gwasanaethau amrywiol a chymhleth hyn, rydym yn gwario dros £1.2 biliwn bob blwyddyn ac yn cyflogi 14,000 o staff. Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Iechyd, doctoriaid a nyrsys fydd yn dod i'r meddwl, ond mae'n bwysig cofio bod amryw o swyddi gwahanol yn cyfrannu at sicrhau bod y gofal rydym yn ei ddarparu yn bosib. Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwyddonwyr iechyd yn cynnwys gweithwyr mewn dros 40 o wahanol swyddi gan gynnwys dietegwyr, ffisiotherapyddion, radiograffwyr, awdiolegwyr a gwyddonwyr labordy. Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi staff i ddarparu gofal clinigol uniongyrchol ac mae'r rhai sy'n darparu cefnogaeth nad yw'n glinigol yn cynnwys ein porthorion, staff glanhau ac arlwyo, trydanwyr a pheirianwyr, a llawer mwy.

Rydym hefyd yn Fwrdd Iechyd Addysgu gyda chysylltiad agos â Phrifysgol Caerdydd, sy'n ymfalchïo mewn rôl flaenllaw o ran dysgu, ymchwil a datblygu yn y DU a thramor. Mae hyn ar ben cysylltiadau academaidd eraill â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr clinigol proffesiynol fel ein bod yn datblygu ein harbenigedd ac yn gwella canlyniadau clinigol.

Ein Gwerthoedd '*GOFALU AM BOBL; CADW POBL YN IACH*'

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro waith pwysig i'w wneud. Mae'r hyn rydym yn ei wneud yn bwysig oherwydd mai ein gwaith ni yw gofalu am bobl a'u cadw'n iach. Rydym eisiau gwneud hyn hyd eithaf ein gallu – ond rydym yn gwybod nad yw ewyllys da yn ddigon bob amser.

Gwerthoedd ac arferion gorau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw:

Rydym yn gofalu am y bobl ry'n ni'n eu gwasanaethau *a'n* cydweithwyr	Trin pobl fel yr hoffech gael eich trin a hynny mewn ffordd **dosturiol**
Rydym yn ymddiried ac yn parchu ein gilydd	Gofyn am **adborth** gan eraill ynghylch eich gwaith a chanolbwyntio ar wneud pethau'n **well**
Rydym yn cymryd cyfrifoldeb personol	Bod yn **frwdfrydig** a chymryd cyfrifoldeb am yr hyn rydych yn ei wneud.
Rydym yn trin pobl yn garedig	**Diolch** i bobl, dathlu llwyddiant a gofyn 'beth allaf i ei ddysgu?' pan fo pethau'n mynd o chwith
Rydym yn gweithredu gydag uniondeb cymeriad	Peidio â blaenoriaethu strwythur a systemau dros wneud y **peth iawn**

Mae ein gwerthoedd yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio a sut y byddwn yn ymddwyn ag eraill. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd ymddwyn yn un unol â'n gwerthoedd bob amser, gan ddangos ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r cleifion.

Y tair rôl allweddol sy'n rhan o waith Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gynnig arweinyddiaeth i'r sefydliad yw:-

- Llunio strategaeth.
- Sicrhau atebolrwydd drwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy.
- Llywio diwylliant cadarnhaol ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad.

Mae rôl aelod y Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth –** cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill wedi'u dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt drwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos drwy

eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliadau a'i randdeiliaid

Y broses ddethol

Bydd y panel dethol yn asesu eich ffurflen gais, CV a'r cwestiynau a ateboch chi fel rhan o'ch datganiad personol i benderfynu p'un a ydych yn bodloni meini prawf y rôl, ac a gewch eich gwahodd am gyfweliad ai peidio. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r cwestiynau a ateboch fel rhan o'ch datganiad personol i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch felly eich bod yn darparu tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys Maria Battle, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Carl Eley, Llywodraeth Cymru a Ruth Marks, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gallai eich cais gael ei roi ar "restr hir", cyn iddo gael ei anfon ymlaen at y panel a fydd yn tynnu'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa o'r fath.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu erbyn diwedd mis Mehefin pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ddydd Llun, 10 Gorffennaf 2017.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Ond os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni meini prawf gofynnol hanfodol y swydd, yna cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad ac na fydd dyddiad y cyfweliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch ddod i'r cyfweliad ar y diwrnod hwnnw, gwnawn ein gorau i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau'r amserlen benodi neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Bydd y system Penodi yn anfon e-bost atoch i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau ym Mhencadlys Corfforaethol Ysbyty Athrofaol Cymru, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y rôl.

Efallai y bydd y broses benodi a'r cyfweliad yn cynnwys asesiadau pellach o addasrwydd ar gyfer y rôl. Bydd y rhai sy'n cael eu gwahodd am gyfweliad yn cael rhagor o wybodaeth ymlaen llaw.

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' yn ôl y panel yn cael eu hargymell i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd

ymgeiswyr sydd wedi cael eu gwahodd i gyfweliad yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn eich penodi'n Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a fydd yn cadarnhau'r telerau y cynigir y penodiad i chi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn eich hysbysu. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am swydd a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion ynghylch pwy y dylech gysylltu â nhw i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais.

Ymholiadau
Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu drwy anfon e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk.

Rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
Mae'r Comisiynydd yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau yn deg, agored a thryloyw ac yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod. I gael rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'r Cod Llywodraethu, ewch i http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk

Os nad ydych yn hollol fodlon
Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os ydych am gwyno am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu drwy anfon e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

Os ydych yn parhau'n bryderus ar ôl derbyn ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn y cyfeiriad isod. Cysylltwch â:

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
1 Horse Guards Road
Llundain
SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 0849
E-bost: publicappointments@csc.gsi.gov.uk